

# Telerau ac Amodau Aelodaeth o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru



1. Dim ond aelodaeth a brynir yn uniongyrchol drwy Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (“yr Ardd”) sy’n ddilys i gael mynediad i’r Ardd, ac mae’r Ardd yn cadw’r hawl i wrthod unrhyw gais am aelodaeth.
2. Ni roir ad-daliad am brynu aelodaeth dan unrhyw amgylchiadau.
3. Os digwydd pod rhan o’r Ardd neu’r Ardd gyfan ar gau am unrhyw reswm, ni roir ad-daliadau nac estyniadau i aelodaeth.
4. Mae aelodaeth o’r Ardd yn caniatáu mynediad i’r Ardd i ddeiliad/ddeiliaid y cerdyn ac aelodau cysylltiedig (yn achos aelodaeth Teulu neu Plws, er enghraifft) yn ystod oriau agor arferol tra bydd yr aelodaeth yn para. Mae’r Ardd yn cadw’r hawl i godi tâl ar aelodau am fynediad i’r Ardd ar gyfer digwyddiadau neu weithgareddau arbennig, boed yn ystod oriau agor arferol neu ar adegau eraill.
5. Rhaid cyflwyno cardiau aelodaeth wrth y brif fynedfa i’r Ardd i gael dod i mewn, a gellir eu defnyddio dim ond gan yr aelod sydd wedi’i enwi. Ni ellir trosglwyddo cardiau aelodaeth.
6. Gwelir isod nifer yr oedolion a’r plant a all gael mynediad ar unrhyw un adeg dan bob math o aelodaeth, a nifer y cardiau aelodaeth a roir i oedolion. Rhaid talu’r pris mynediad arferol am bob gwestai.

| Math o Aelodaeth  | Cardiau a Roir | Nifer Oedolion* | Nifer Plant |
|-------------------|----------------|-----------------|-------------|
| Unigol            | 1              | 1               | 0           |
| Cyfunol           | 2              | 2               | 0           |
| Aelodaeth Plws    | 1              | 2               | 0           |
| Teulu + 1 Oedolyn | 1              | 1               | 4           |
| Teulu + 2 Oedolyn | 2              | 2               | 4           |
| Dysgu Gartref     | 2              | 2               | 6           |

\* Rhaid i bob oedolyn ddangos cerdyn aelodaeth dilys, heblaw yn achos Aelodaeth Plws lle gall aelod sydd â cherdyn dilys ddod ag un gwestai yn rhad ac am ddim.

7. Mae aelodaeth Dysgu Gartref yn caniatáu mynediad i’r Ardd yn rhad ac am ddim o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau’r banc) dim ond yn ystod tymor ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin. Rhair yr aelodaeth hon i gategoriâu penodol o unigolion yn unig.
8. Gwrthodir mynediad i aelodau sy’n methu â dangos cerdyn dilys wrth fynd i mewn i’r Ardd, neu gofynnir iddynt dalu’r ffi mynediad cyhoeddus, ac ni roir ad-daliad amdano.
9. Mae’r aelodaeth, sy’n cynnwys y cerdyn aelodaeth, yn dal yn eiddo i’r Ardd. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn cadw’r hawl i ddileu aelodaeth am unrhyw reswm.
10. Lle caiff aelodaeth o’r Ardd ei thalu drwy Ddebyd Uniongyrchol, cyfrifoldeb yr Aelod yw dileu Debyd

Uniongyrchol gyda'i fanc, a rhoi gwybod i'r Adran Aelodaeth yn ysgrifenedig neu drwy e-bost am ddileu felly os na chaiff aelodaeth ei hadnewyddu.

11. Codir ffi gweinyddu o £5 am roi cardiau aelodaeth yn lle rhai sydd wedi eu colli neu eu niweidio. Rhowch wybod ar unwaith yn y Porthdy neu i'r Adran Aelodaeth os collwch eich cerdyn.
12. Mae'r Ardd yn cadw'r hawl i gau unrhyw ran o'r Ardd, neu'r safle cyfan, heb rybudd ymlaen llaw; nid yw aelodaeth yn gwarantu mynediad.
13. Ni ellir defnyddio aelodaeth men cysylltiad ag unrhyw weithgarwch busnes neu'n fasnachol heb ganiatâd penodol gan yr Ardd.
14. Nid yw aelodaeth o'r Ardd yn cynnwys mynediad am ddim i Ganolfan Adar Ysglyfaethus Prydain ((BBPC). Fodd bynnag, gall aelodau brynu aelodaeth ar wahân yn uniongyrchol o'r Ganolfan Adar Ysglyfaethus
15. Mae manylion am safleoedd sy'n cynnig mynediad i aelodau o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru dan gynlluniau cyfatebol yn agored i newid, ac ni yw eu haelodaeth hwy yn cyfateb i aelodaeth o'r Ardd. Mae manylion am drefniadau cyfatebol ar gael ar wefan yr Ardd ac mewn llythyron atgoffa. Atgoffir aelodau i wneud yn siŵr cyn teithio i unrhyw siwrnai i leoliad cyfatebol, ac i sylwi na fydd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn atebol am unrhyw hawliadau o unrhyw fath yn ymwneud ag ymweliadau â gerddi neu leoliadau cyfatebol.
16. Mae'r Ardd yn cadw'r hawl i newid neu atal cynigion, hyrwyddiadau neu ddisgownt i aelodau ar unrhyw adeg, ac i gynnig manteision penodol aelodaeth i rai categorïau o aelodau'n unig. Mae rhestr lawn o fanteision aelodaeth i'w gweld ar wefan yr Ardd neu ar gael yn ysgrifenedig ac wrth adnewyddu.
17. Rhaid i aelodau roi gwybod i'r Ardd ar unwaith am unrhyw newid cyfeiriad a manylion cyswllt. Pan fydd yr Ardd heb gael gwybod am newid cyfeiriad a chardiau aelodaeth yn cael eu hanfon, bydd yr Ardd yn codi tâl am gardiau newydd yn ogystal â ffi gweinyddu.
18. Cyfrifoldeb yr Aelod yw rhoi gwybod i'r Adran Aelodaeth am unrhyw newid mewn amgylchiadau'n ymwneud â Chymorth Rhodd, yn enwedig os bydd y dreth bersonol a delir yn llai na swm y Cymorth Rhodd a hawlir ar yr holl roddion yn y flwyddyn dreth berthnasol.
19. Bydd yr Ardd yn cadw manylion aelodau'n ddiogel ac ni fydd yn eu rhannu ag unrhyw sefydliadau trydydd person heb ganiatâd penodol yr aelod. Mae Polisi Preifatrwydd llawn yr Ardd i'w weld ar wefan yr Ardd.